Healthcare Inspectorate Wales
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, **Clinig Deintyddol Stryd Russell**

29 Mehefin 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-3975-7
© Hawlfraint y Goron 2014

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ........ 2

2. Methodoleg ........ 2

3. Cyd-destun ........ 4

4. Crynodeb ........ 5

5. Canfyddiadau ........ 7

Profiad y Claf ........ 7

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal ........ 9

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 14

Ansawdd yr Amgylchedd ........ 17

6. Y Camau Nesaf ........ 19

Atodiad A ........ 20

## 1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gynnal arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Glinig Deintyddol Stryd Russell, yn 27 Stryd Russell, Abertawe, SA1 4HR, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ar 29 Mehefin 2015.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.[1] Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/how-the-health-and-care-standards-are-st

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a’r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o’n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o’r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o’r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Clinig Deintyddol Stryd Russell yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Abertawe. Mae’r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Mae'n bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG. Darperir amrywiaeth o wasanaethau.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy’n cynnwys dau ddeintydd, dwy nyrs ddeintyddol, a rheolwr practis. Ar adeg ein harolygiad, roedd dwy nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant hefyd yn gweithio yn y practis.

## 4. Crynodeb

Gwnaeth AGIC archwilio sut mae Clinig Deintyddol Stryd Russell yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Dywedodd y cleifion a wnaeth gwblhau a dychwelyd holiaduron AGIC eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent wedi'i dderbyn. Roedd gwybodaeth am dîm y practis, a'r gwasanaethau a gynigir, wedi'i harddangos yn y practis, ac roedd yr wybodaeth hefyd ar gael yn nhaflen wybodaeth y practis. Roedd gan y practis system ar waith i gasglu barn cleifion.

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer cynnal sganiau pelydr-X mewn ffordd ddiogel.

Roedd offer a chyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys ar gael pe bai argyfwng claf (llewyg). Gwelsom fod nifer o gyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys wedi mynd heibio eu dyddiadau dod i ben. Gwnaeth perchennog y practis fynd i'r afael â hyn ar unwaith. Gwnaethom nodi bod angen gwneud gwelliannau yn y system ynglŷn â gwirio'r offer a ddefnyddir mewn argyfwng yn ogystal â'r cyffuriau a gedwir yn y practis.

Roedd trefniadau ar waith i storio a throsglwyddo gwastraff i'w waredu yn ddiogel.

Roedd y cyfleusterau clinigol yn lân ac yn daclus ac wedi'u dodrefnu i hwyluso glanhau effeithiol.

Roedd gan y practis ystafell ddadheintio ar wahân yn unol â'r hyn a argymhellir yn y polisi cenedlaethol cyfredol a'r ddogfen ganllaw. Roedd proses addas ar waith i lanhau a sterileiddio offer deintyddol i leihau croes-heintio. Roedd manylion am y broses wedi cael eu harddangos yn glir yn yr ystafell ddadheintio er mwyn i'r staff eu gweld. Rydym wedi argymell y dylai perchennog y practis wneud trefniadau i sicrhau bod dyddiadau dod i ben yn cael eu cofnodi'n rheolaidd ar yr offer sydd mewn pecynnau.

Roedd y sampl o gofnodion cleifion a welsom yn gynhwysfawr.

Roedd rheolwr yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd. Dywedodd staff wrthym fod ganddynt fynediad at gyfleoedd hyfforddi a'u bod yn teimlo bod cyfathrebu da ymhlith tîm y practis.

Roedd polisïau ysgrifenedig ar gael â'r bwriad o ddarparu gofal a thriniaeth ddiogel ar gyfer cleifion. Rydym wedi argymell bod perchennog y practis yn gwneud trefniadau er mwyn i staff dderbyn hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion.

Gwelsom fod arwyddion clir ar gael a bod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda – y tu mewn a'r tu allan. Roedd ardaloedd cyfforddus i gleifion aros cyn cael eu gweld gan staff y practis.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Dywedodd y cleifion a wnaeth gwblhau a dychwelyd holiaduron AGIC eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent wedi'i dderbyn. Roedd gwybodaeth am dîm y practis, a'r gwasanaethau a gynigir, wedi'i harddangos yn y practis, ac roedd yr wybodaeth hefyd ar gael yn nhaflen wybodaeth y practis. Roedd gan y practis system ar waith i gasglu barn cleifion.**

Cyn ein hymweliad arolygu, gwnaethom ofyn i reolwr y practis wahodd cleifion i gwblhau holiaduron AGIC. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 15 o holiaduron a oedd wedi cael eu cwblhau cyn ein hymweliad arolygu.

Trwy gyfrwng ein holiaduron, gwnaethom wahodd cleifion i roi sylwadau ar eu profiad o ddefnyddio'r practis. Dywedodd yr holl gleifion a wnaeth ddychwelyd holiaduron eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent wedi'i dderbyn, bod tîm y practis wedi rhoi croeso iddynt, a'u bod wedi derbyn digon o wybodaeth ynghylch eu triniaeth. Gwnaeth rhai cleifion sylwadau ychwanegol am eu profiad. Roedd y rhain yn cynnwys:

> '*Rydw i bob amser wedi bod yn hapus iawn â'r driniaeth yn ogystal â pha mor fodolon i helpu y mae pob un sy'n gweithio yn y practis.'*
>
> *'Mae'r clinig yn cael ei redeg yn dda; does byth angen i fi aros am apwyntiadau.'*
>
> *‘Mae'r staff yn gyfeillgar iawn ac yn barod eu cymwynas, ac maen nhw'n tawelu eich meddwl. Rydw i'n hapus iawn â'r driniaeth rydw i wedi ei chael hyd yn hyn.’*
>
> *'Pan ddes i yma, roedd gen i broblem ddifrifol â'm deintgig. … Roedd y driniaeth yn ogystal â'r cyngor a'r cymorth … wedi achub fy neintgig a'm dannedd.’*

Dywedodd pob claf a oedd wedi cwblhau'r holiaduron nad oeddent wedi profi unrhyw oedi sylweddol wrth aros i gael eu gweld. Gwnaeth y staff ddisgrifio proses a oedd ar waith ar gyfer hysbysu'r cleifion pe bai eu deintydd yn hwyr, neu'n absennol yn annisgwyl, ar ddiwrnod eu hapwyntiad.

Gwnaeth rheolwr y practis esbonio bod cleifion yn gallu darparu adborth ynghylch eu profiad drwy holiadur i gleifion. Gwelsom eu bod ar gael yn y dderbynfa, ynghyd â blwch sylwadau i ddychwelyd holiaduron a gwblhawyd.

Roedd hyn yn golygu bod gan y cleifion y cyfle i roi sylwadau ar eu profiad er mwyn i dîm y practis eu hystyried gyda'r bwriad o wella'r gwasanaeth lle bo hynny'n briodol. Gwnaethom edrych ar hapsampl o holiaduron a ddychwelwyd gan gleifion ers mis Tachwedd 2014. O fewn y sampl y gwnaethom ei ystyried, roedd cleifion wedi gwneud sylwadau cadarnhaol ynghylch eu profiad yn y practis.

Roedd taflen bractis ar gael y gallai’r cleifion fynd â hi. Gwnaeth hon roi gwybodaeth ymarferol a defnyddiol ynghylch y gwasanaeth a gynigir. Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos yn y practis hefyd ac ar wefan y practis. Roedd enw a swydd pob aelod o staff yn nhîm y practis wedi'u harddangos yn amlwg hefyd, ynghyd â ffotograff. Roedd hyn yn golygu bod gan gleifion wybodaeth ynghylch pwy fyddai'n darparu'r gofal.

Roedd manylion bandiau prisio'r GIG ar gyfer triniaeth wedi'u harddangos yn glir, ynghyd â gwybodaeth ynglŷn â'r meini prawf ar gyfer derbyn triniaeth y GIG am ddim. Roedd prisiau ar gyfer gwasanaethau deintyddol preifat hefyd wedi'u harddangos. Roedd hyn yn golygu bod gan gleifion a oedd yn ymweld â'r practis fynediad hawdd at wybodaeth am faint y gallai fod angen iddynt ei dalu am eu triniaeth ddeintyddol.

Gwelsom fod amrywiaeth o daflenni hybu iechyd ar gael hefyd. Roedd hyn yn golygu bod gwybodaeth a chyngor ar gael i gleifion i'w helpu i ofalu am hylendid ac iechyd y geg eu hunain.

## *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**Roedd trefniadau ar waith ar gyfer cynnal sganiau pelydr-X mewn ffordd ddiogel.**

**Roedd offer a chyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys ar gael pe bai argyfwng claf (llewyg).Gwelsom fod nifer o gyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys wedi mynd heibio eu dyddiadau dod i ben. Gwnaeth perchennog y practis fynd i'r afael â hyn ar unwaith. Gwnaethom nodi bod angen gwneud gwelliannau yn y system ynglŷn â gwirio'r offer a ddefnyddir mewn argyfwng yn ogystal â’r cyffuriau a gedwir yn y practis.**

**Roedd trefniadau ar waith i storio a throsglwyddo gwastraff i’w waredu yn ddiogel.**

**Roedd y cyfleusterau clinigol yn lân ac yn daclus ac wedi’u dodrefnu i hwyluso glanhau effeithiol.**

**Roedd gan y practis ystafell ddadheintio ar wahân yn unol â'r hyn a argymhellir yn y polisi cenedlaethol cyfredol a'r ddogfen ganllaw. Roedd proses addas ar waith i lanhau a sterileiddio offer deintyddol i leihau croes-heintio. Roedd manylion am y broses wedi cael eu harddangos yn glir yn yr ystafell ddadheintio er mwyn i'r staff eu gweld. Rydym wedi argymell y dylai perchennog y practis wneud trefniadau i sicrhau bod dyddiadau dod i ben yn cael eu cofnodi'n rheolaidd ar yr offer sydd mewn pecynnau.**

**Roedd y sampl o gofnodion cleifion a welsom yn gynhwysfawr.**

**<u>Cyfarpar/dogfennaeth radiograffig</u>**

Gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd dogfennaeth a gwybodaeth ofynnol ynglŷn â defnyddio offer pelydr-X yn y practis yn ddiogel ar gael yn Ffeil Amddiffyn Rhag Ymbelydredd y practis. Roedd tystysgrifau gwiriadau diogelwch ar gael ar gyfer pob peiriant pelydr-X a oedd yn cael ei ddefnyddio yn y practis, ac roedd y rhain wedi cael eu diweddaru. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant ar ddefnyddio offer pelydr-X yn ddiogel. Roedd angen diweddaru hyfforddiant un aelod o staff, a chawsom wybod bod hyn eisoes wedi cael ei drefnu ar gyfer Medi 2015.

Roedd sganiau pelydr-X digidol yn cael eu defnyddio. Gwelsom fod archwiliadau sicrhau ansawdd wedi cael eu cynnal er mwyn sicrhau ansawdd delweddau. Nod y broses hon oedd nodi unrhyw faterion sy'n ailgodi’n rheolaidd, er mwyn gwneud addasiadau yn ôl yr angen, i sicrhau bod sganiau

pelydr-X o safon ddigonol. Er bod archwiliadau wedi cael eu cynnal, nid oedd dadansoddiad ysgrifenedig o'r canlyniadau nac unrhyw gamau gweithredu ar gael. O ganlyniad, dylai perchennog y practis wneud trefniadau i ddangos bod canlyniadau'r archwiliad wedi cael eu dadansoddi a pha gamau gweithredu sydd wedi cael eu rhoi ar waith yn sgil hyn.

**<u>Dadebru a chymorth cyntaf/cyffuriau brys</u>**

Roedd gan staff fynediad at offer dadebru a chyffuriau brys pe bai argyfwng claf (llewyg) yn y practis. Roedd cyfres o siartiau llif ar gael er mwyn llywio staff trwy'r camau priodol pe bai argyfwng claf yn cael ei nodi. Roedd perchennog y practis hefyd yn barod i dderbyn ein hargymhelliad ynghylch storio'r rhain mewn waledi plastig ar wahân gyda'r cyffuriau i'w defnyddio, er mwyn gallu mynd atynt mewn argyfwng yn hawdd ac yn gyflym. Roedd perchennog y practis hefyd yn barod i dderbyn ein hargymhelliad ynghylch storio'r holl offer brys mewn un lle er mwyn ei wneud yn haws i staff fynd atynt.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dynodi bod y staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i berfformio adfywiad cardio-pwlmonaidd (CPR) yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n ymwybodol o'u rolau penodol pe bai argyfwng claf.

Disgrifiwyd bod system ar waith er mwyn canfod a newid cyffuriau y mae eu dyddiad wedi dod i ben, ac i wirio cyfarpar brys a gedwir yn y practis yn rheolaidd. Roedd llyfr cofnodion ysgrifenedig wedi cael ei gynnal a'i gadw a oedd yn dangos y broses hon. Wrth wirio'r meddyginiaethau a ddefnyddir mewn argyfwng, gwelsom fod dyddiadau nifer ohonynt wedi dod i ben. Yn ogystal, roedd y padiau a ddefnyddir gyda'r diffibriliwr awtomatig hefyd wedi dod i ben. Er bod hyn wedi'i nodi yn y llyfr cofnodion, roedd yn ymddangos nad oedd prynu eitemau newydd yn eu lle wedi cael eu rhoi ar waith yn briodol gan y staff. Gwnaethom hysbysu perchennog y practis am ein canfyddiadau, ac fe gymerodd camau gweithredu ar unwaith i'w newid. Gwnaethom nodi bod angen gwelliannau er mwyn sicrhau bod system wirio'r practis yn gadarn, a chytunodd perchennog y practis i fynd i'r afael â hyn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod system effeithiol ar waith ar gyfer gwirio cyffuriau ac offer brys yn y practis yn rheolaidd, yn unol â'r canllawiau a osodwyd gan Gyngor Dadebru'r DU. Dylid gwneud hyn gyda'r bwriad o ganfod a newid cyffuriau sy'n agosáu at eu dyddiad dod i ben a gwirio bod cyfarpar yn addas i'w ddefnyddio o hyd.***

Roedd llyfrau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio er mwyn rhwystro pobl heb ganiatâd rhag eu defnyddio.

**Trin, storio a gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus**

Gwelsom fod contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus yn ddiogel. Roedd y gwastraff domestig a gynhyrchiwyd gan y practis yn cael ei gasglu drwy drefniant â'r cyngor lleol. Gwelsom fod gwastraff a gynhyrchwyd gan y practis wedi cael ei ddidoli a'i roi mewn bagiau/cynwysyddion o wahanol liwiau, ac roedd y rhain yn cael eu storio'n ddiogel nes iddynt gael eu casglu.

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer gwaredu ar gynnyrch hylendid merched. Fodd bynnag, roedd hyn yn golygu trosglwyddo gwastraff mewn bagiau o fin a'i roi mewn bag gwastraff priodol arall. Gwnaethom gynnig bod y trefniant hwn yn cael ei wirio i sicrhau bod y practis yn cydymffurfio'n llawn â'r canllawiau cyfredol ar reoli gwastraff gofal iechyd. Cytunodd perchennog y practis i wneud hyn.

Roedd gan y practis ddidolwyr amalgam[4] er mwyn tynnu gronynnau amalgam (llenwadau) o ddŵr gwastraff a'u gwaredu'n ddiogel.

**Dadheintio offer deintyddol a chydymffurfiad â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1)**

Gwelsom fod proses addas ar waith ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Roedd gan y practis ystafell ddadheintio ar wahân, yn unol â'r hyn a argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1).[5] Nod yr ystafell hon, ynghyd â defnyddio gweithdrefnau rheoli priodol, oedd lleihau'r perygl o groes-heintio offerynnau. Roedd cofnodion o wiriadau wedi'u cynnal, ac roedd y cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg. Roedd tystysgrif gwiriad diogelwch gyfredol ar gael ar gyfer y peiriant awtoclaf.[6]

---

[4] Dyfais sy'n tynnu gronynnau o amalgam mercwri (sydd mewn rhai llenwadau deintyddol) o ddŵr gwastraff cyn iddo fynd i'r system garthffosiaeth.

[5] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

[6] Siambr bwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau drwy ddefnyddio stêm dirlawn o bwysedd uchel.

Roedd cyfarwyddiadau clir ar yr holl weithdrefnau y dylid ymgymryd â nhw wedi'u harddangos yn yr ystafell ddadheintio. Roedd hyn yn golygu y byddai staff asiantaeth sy'n gweithio yn y practis yn cael gwybod am ei weithdrefnau yn y man lle dylid eu gweithredu. Gwnaethom nodi fod hyn yn enghraifft o arfer nodedig.

Gwelsom fod yr offer deintyddol wedi'u pecynnu'n briodol er mwyn lleihau'r risg o heintio wrth iddynt gael eu storio. Nid oedd yr holl offer a oedd yn cael eu storio yn cofnodi'r dyddiad y cawsant eu prosesu (eu glanhau a'u sterileiddio) a'r dyddiad ar gyfer eu defnyddio ar y pecyn. Gwnaethom hysbysu perchennog y practis am ein canfyddiadau fel y gellir gwneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod dyddiadau yn cael eu cofnodi'n gyson ar y pecynnau.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod y dyddiad prosesu a'r dyddiad dod i ben ar gyfer offer sydd wedi cael eu glanhau a'u sterileiddio'n cael eu dangos yn glir ar y pecynnau cyn iddynt gael eu storio.***

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gynnal gan ddefnyddio dull cydnabyddedig sy'n cyd-fynd yn benodol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd hyn yn golygu bod y tîm deintyddol wedi hunanasesu eu hymarfer yn unol â'r polisi, a'r cyfarwyddyd a amlinellir ynddo. Roedd tîm y practis wedi nodi meysydd i'w gwella o ganlyniad i'r archwiliad, a dywedwyd wrthym fod y cynnydd yn cael ei fonitro'n rheolaidd.

## Cyfleusterau clinigol

Gwnaethom edrych ar holl gyfleusterau clinigol yn y practis. Gwelsom fod y rhain yn lân ac yn daclus, ac wedi'u dodrefnu er mwyn hwyluso glanhau rhwydd ac effeithiol.

Roedd y cyfarpar a'r offer deintyddol yn lân ac mewn cyflwr da yn ôl pob golwg. Roedd cyfleusterau golchi dwylo ac offer diogelu untro ar gael i leihau'r perygl o groes-heintio.

Roedd rheolau lleol ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel ar gael, ond nid oeddent wedi'u harddangos yn glir yn yr ystafelloedd triniaeth. Gwnaethom argymell y dylai'r trefniadau gael eu harddangos ym mhob ystafell driniaeth, a chytunodd perchennog y practis i wneud hyn.

Roedd y cywasgydd[7] a ddefnyddir yn y practis yn llai na blwydd oed. O ganlyniad, nid oedd tystysgrif gwiriad diogelwch ar gael am nad oedd dyddiad y gwiriad diogelwch cyntaf wedi mynd rhagddo ar adeg ein hymweliad arolygu.

**Cofnodion cleifion**

Gwnaethom ystyried sampl o ddeg o gofnodion deintyddol cleifion. Roedd y sampl hon yn cynnwys cofnodion a oedd wedi cael eu cwblhau gan y ddau ddeintydd a oedd yn gweithio yn y practis ar adeg ein harolygiad.

Gwelsom fod hanesion meddygol cleifion wedi cael eu llofnodi gan y claf, a'u cydlofnodi gan y deintydd. Gwelsom hefyd fod nodiadau ysgrifenedig cynhwysfawr wedi'u cofnodi fel tystiolaeth o'r archwiliadau a gynhaliwyd, y driniaeth a drafodwyd ac a gynlluniwyd, a’r triniaethau a ddarparwyd. Lle roedd sganiau pelydr-X wedi'u cymryd, roedd cyfiawnhad dros y rhain wedi cael ei gofnodi, ac roedd y canfyddiadau clinigol wedi cael eu nodi. Yn ôl ein canfyddiadau, daethom i'r casgliad bod triniaethau wedi cael eu cynllunio a'u cyflenwi mewn ffordd a oedd yn sicrhau diogelwch a lles y cleifion.

[7] Mae cywasgydd yn codi pwysedd aer, at ddiben triniaethau deintyddol.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Roedd rheolwr yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd. Dywedodd staff wrthym fod ganddynt fynediad at gyfleoedd hyfforddiant a'u bod yn teimlo bod cyfathrebu da ymhlith tîm y practis.**

**Roedd polisïau ysgrifenedig ar gael â'r bwriad o ddarparu gofal a thriniaeth ddiogel ar gyfer cleifion. Rydym wedi argymell bod perchennog y practis yn gwneud trefniadau er mwyn i staff dderbyn hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion.**

### Staff

Roedd rheolwr yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, ac roedd yn gweithio'n agos gyda pherchennog y practis. Daeth i'r amlwg yn sgil trafodaethau â pherchennog y practis bod pwyslais yn cael ei roi ar ddatblygiad staff. Dywedwyd wrthym fod hyn wedi'i fodloni, yn rhannol, drwy glustnodi cyfrifoldeb am feysydd penodol y practis i wahanol aelodau o staff yn y tîm.

Gwnaeth rheolwr y practis gadarnhau bod yr holl staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis wedi cael eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a bod ganddynt yswiriant indemniad. Gwelsom gofnodion a oedd yn ategu hyn. Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn ogystal â gwasanaethau deintyddol y GIG, ac roedd ganddynt dystysgrifau cofrestru cyfredol gan AGIC. Er bod y tystysgrifau hyn wedi'u harddangos yn y dderbynfa, dylid gwneud trefniadau i'w harddangos mewn lleoliad mwy amlwg yn unol â gofynion y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Gwnaeth rheolwr y practis gadarnhau bod y staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis wedi derbyn brechiadau yn erbyn hepatitis B. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol ar waith i amddiffyn staff a chleifion rhag firysau a gludir yn y gwaed.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu da ymhlith tîm y practis. Gwnaethant gadarnhau bod cyfarfodydd y practis yn cael eu cynnal a bod pynciau perthnasol yn cael eu trafod. Roedd nodiadau a gwblhawyd yn ystod cyfarfod diweddar yn cadarnhau'r drefn hon.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn gallu cael mynediad at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swydd a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael eu trin gan staff sydd â sgiliau priodol a hyfforddiant cyfredol. Gwelsom hefyd dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant ynghylch amrywiaeth o destunau. Gwelsom

gofnodion a oedd yn dystiolaeth bod staff wedi derbyn arfarniad o'u gwaith yn ystod y flwyddyn flaenorol.

**Diogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed**

Roedd gan y practis bolisïau ysgrifenedig ynghylch amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd manylion cyswllt ar gyfer timau diogelu lleol ar gael. Roedd hyn yn golygu bod gan staff wybodaeth am bwy i gysylltu â nhw i gael cyngor ar faterion diogelu. Gwnaeth perchennog y practis a'r rheolwr groesawu ein hargymhelliad i wahaniaethu'n fwy clir rhwng y polisïau diogelu gwirioneddol a'r deunydd darllen atodol i staff.

Roedd mwyafrif y staff wedi mynychu hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. I'r staff hynny nad oeddent wedi mynychu'r hyfforddiant, gwnaeth rheolwr y practis gadarnhau bod hwn ar y gweill.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod staff perthnasol y practis yn derbyn hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.***

**Cwynion**

Roedd y practis yn darparu gofal a thriniaeth breifat a gofal a thriniaeth y GIG, ac roedd gweithdrefnau ar waith er mwyn i gleifion leisio pryderon (cwynion).

Ar y cyfan, roedd y rhain yn bodloni'r trefniadau ar gyfer gofal a thriniaeth y GIG a gofal a thriniaeth breifat. Fel rhan o drefniadau *Gweithio i Wella*[8], gall y cleifion hynny sy'n derbyn triniaeth y GIG gael mynediad at gymorth a chyngor wrth y cyngor iechyd cymuned lleol. Dylid ychwanegu'r manylion cyswllt hyn yn

[8] *Gweithio i Wella* – y trefniadau sydd ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon am ofal a thriniaeth a ddarperir gan y GIG yng Nghymru, ac ymateb iddynt. www.puttingthingsright.wales.nhs.uk

y weithdrefn ysgrifenedig ac yn yr wybodaeth a ddarperir i'r cleifion. Roedd angen cynnwys manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn y weithdrefn ysgrifenedig ynghylch cwynion am driniaeth ddeintyddol breifat. Gwnaeth rheolwr y practis gytuno i gynnwys yr wybodaeth hon.

Pan wnaethom ofyn ynghylch gwneud cwynion, gwnaeth wyth o gleifion a wnaeth ddychwelyd holiaduron gadarnhau eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn, a dywedodd saith wrthym naill ai nad oeddent yn gwybod, neu nad oeddent wedi cael rheswm dros wneud hynny. Roedd gwybodaeth i gleifion ynglŷn â sut i leisio pryder (cwyn) wedi'i harddangos yn y practis. Roedd hon yn cyfeirio cleifion i ofyn am fanylion wrth y dderbynfa, ac fe ddylai gael ei hadolygu er mwyn darparu mwy o wybodaeth ar y weithdrefn i'w dilyn fel nad oes rhaid i gleifion ofyn amdani.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau i arddangos y gweithdrefnau pryderon (cwynion) fel nad oes yn rhaid i'r cleifion sy'n ymweld â'r practis holi ynghylch yr wybodaeth hon.***

Roedd rheolwr y practis wedi cynnal a chadw cofnodion o gwynion, a gwelsom fod manylion ynghylch cwyn (anffurfiol) diweddar a wnaed ar lafar wedi cael eu trafod yn ystod cyfarfod diwethaf y practis. Roedd hyn yn golygu bod rheolwr y practis wedi cymryd camau gweithredu i rannu'r wybodaeth ynghylch y gŵyn, gyda'r nod o atal yr un peth rhag digwydd eto.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn codi unrhyw bryder a allai fod ganddynt yn ymwneud â'r gwaith gydag uwch-staff. Roedd gan y practis weithdrefn chwythu'r chwiban ysgrifenedig a oedd ar waith.

**Dogfennau ysgrifenedig**

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol, gyda'r bwriad o sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu darparu'n ddiogel. Roedd y rhain yn cynnwys polisïau ysgrifenedig ynglŷn â chyfrinachedd cleifion, amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed, ymdrin â chwynion, storio a gwaredu gwastraff, rheoli heintiau, ac ymdrin â chlaf mewn argyfwng (cwymp).

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Gwelsom fod arwyddion clir ar gael a bod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda – y tu mewn a'r tu allan. Roedd ardaloedd cyfforddus i gleifion aros cyn cael eu gweld gan staff y practis.**

Mae Clinig Deintyddol Stryd Russell yn cynnig gwasanaeth mewn lleoliad ger canol dinas Abertawe. Dywedwyd wrthym fod y safle wedi cael ei ddefnyddio fel practis deintyddol ers tua 60 mlynedd, ac i'r perchennog presennol gymryd drosodd yn 1989.

Nid oedd gan y practis leoedd parcio dynodedig at ddefnydd cleifion. Fodd bynnag, roedd lleoedd parcio ar gael a oedd yn rhad ac am ddim (hyd at un awr) ar hyd y stryd lle roedd y practis wedi'i leoli, yn ogystal ag ar strydoedd gerllaw.

Roedd yr adeilad wedi'i gynnal a'i gadw'n dda y tu allan, yn ôl pob golwg. Roedd arwyddion clir ar gael yn y practis, ac roedd enwau'r deintyddion, ynghyd ag oriau agor y practis a'r rhif cyswllt mewn argyfwng, wedi'u harddangos ger y brif fynedfa. Roedd hyn yn golygu bod cleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn gyfarwydd ag enwau'r deintyddion a oedd yn darparu gofal. Roeddent hefyd yn cael eu cyfeirio at rif i'w alw pe byddai angen triniaeth ddeintyddol frys arnynt pan fyddai'r practis ar gau.

Yr unig ffordd o fynd at yr adeilad oedd drwy ddringo grisiau a oedd yn arwain at y brif fynedfa. Golygai hyn nad oedd yn addas i bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Roedd canllaw ar gael i gynorthwyo cleifion wrth iddynt ddefnyddio'r grisiau. Roedd ystafell driniaeth ar lawr daear yr adeilad er mwyn hwyluso pethau i'r bobl a fyddai'n cael trafferth i ddringo'r grisiau mewnol.

Roedd y cyfleusterau yn y practis wedi'u gosod ar dri llawr, gyda chyfleusterau'r cleifion wedi'u lleoli ar y llawr daear ac ar y llawr cyntaf, a chyfleusterau'r staff wedi'u lleoli ar yr ail lawr. Gwnaeth arsylwadau ar y dydd gadarnhau bod nifer a maint yr ystafelloedd aros yn addas ar gyfer nifer y cleifion a oedd yn mynychu'r practis. Roedd gan yr ystafell aros ar y llawr daear gadeiriau a oedd yn amrywio yn ôl eu maint, fel y gallai pobl gael mynediad at gadeiriau o'u dewis.

Esboniodd perchennog y practis fod yr adeilad wedi bod yn destun nifer o welliannau dros gyfnod o amser wrth i anghenion y busnes ddatblygu. Roedd yr adeilad wedi ei addurno i safon dda y tu mewn. Roedd gan y practis gyfleusterau toiled ar gyfer y staff a'r cleifion, ac roeddent wedi'u lleoli ar y llawr cyntaf. Yn ystod taith o gwmpas yr adeilad, canfuom fod y mannau'n lân ac yn daclus, ac wedi'u goleuo a'u hawyru'n ddigonol. Roedd cyfleusterau addas ar

gyfer golchi a sychu dwylo yn y tai bach er mwyn lleihau'r perygl o groes-heintio.

Roedd lleoedd storio o dan glo ar gael ar gyfer storio cofnodion mewn ffordd ddiogel. Roedd angen cyfrinair ar y staff i gael mynediad at gofnodion electronig. Roedd hyn yn golygu bod trefniadau ar waith i ddiogelu gwybodaeth bersonol cleifion sy'n cael ei chadw yn y practis.

Roedd arwyddion clir at yr allanfeydd tân, ac roedd y cyfarwyddiadau i'w dilyn pe bai tân wedi cael eu harddangos. Roedd diffoddwyr tân ar gael, ac roedd y labeli cynnal a chadw yn dangos eu bod wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf. Roedd hyn yn golygu bod gan staff a chleifion wybodaeth ar sut i adael yr adeilad yn ddiogel mewn tân, a bod offer addas ar gael i'r staff eu defnyddio pe bai angen.

## 6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, gwelwyd bod angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal, a rheolaeth ac arweinyddiaeth. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai’r cynllun gwella ddatgan yn eglur pa bryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yng Nghlinig Deintyddol Stryd Russell yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o’r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Clinig Deintyddol Stryd Russell

## Dyddiad yr Arolygiad: 29 Mehefin 2015

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn sydd Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| | Dim byd wedi'i nodi | | | |
| | **Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal** | | | |
| 9 | Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod system effeithiol ar waith ar gyfer gwirio cyffuriau ac offer brys yn y practis yn rheolaidd, yn unol â'r canllawiau a osodwyd gan Gyngor Dadebru'r DU. Dylid gwneud hyn gyda'r bwriad o ganfod a newid cyffuriau sy'n agosáu at eu dyddiad dod i ben a gwirio bod cyfarpar yn addas i'w ddefnyddio o hyd.<br>(Safonau Iechyd a Gofal, Safon 2.9; Cyngor | Roedd system gadarn wedi'i rhoi ar waith a oedd yn cynnwys gwiriadau y gellir eu dilysu ynghylch yr holl gyffuriau, siartiau llif, ocsigen, a phadiau diffibrilio, gan unigolyn penodol bob wythnos. Ceir hefyd taflen grynodeb o'r holl ddyddiadau dod i ben, sydd ynghlwm wrth ddrws y cwpwrdd sy'n cynnwys y cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys. Ar y daflen hon, mae dyddiad y cyffur nesaf a fydd yn dod i ben wedi'i uwcholeuo, ac mae'r daflen grynodeb yn cael ei hailargraffu | Simon Jenkins | Cwblhawyd |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn sydd Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Dadebru'r DU, 'Primary Care: Minimum equipment and drug lists for cardiopulmonary resuscitation', Adran 3) | bob tro mae dyddiad dod i ben ar gyfer cyffur yn cael ei gyrraedd. | | |
| 11 | Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod y dyddiad prosesu a'r dyddiad dod i ben ar gyfer offer sydd wedi cael eu glanhau a'u sterileiddio'n cael eu dangos yn glir ar y pecynnau cyn iddynt gael eu storio.<br><br>(Safonau Iechyd a Gofal, Safon 2.4; Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Paragraffau 2.4(k), 2.4(l) a 4.26) | Mae'r system ar gyfer dyddio offer sydd wedi'u sterileiddio wedi newid tair gwaith yn ystod y tri mis diwethaf oherwydd gwelliannau a wnaed i'r system. Fel arfer, mae system wedi cael ei rhoi ar brawf mewn un ystafell driniaeth, ac wedyn mae wedi cael ei mabwysiadu drwy gydol y clinig ac yn y blaen.  Cafodd y system ddiweddaraf, a gafodd ei mabwysiadu trwy gopïo'r system a ddefnyddir mewn clinig lleol o'r radd flaenaf, ei rhoi ar waith (ei threialu mewn un ystafell driniaeth) dim ond wythnos neu ddwy cyn yr arolygiad, ac mae bellach wedi cael ei mabwysiadu drwy gydol y clinig a'i phrofi am ychydig fisoedd. O ganlyniad, dylai unrhyw anghysondebau fod wedi cael eu datrys. | Simon Jenkins | Cwblhawyd |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| 14 | Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod staff perthnasol y practis yn derbyn hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.<br><br>(Safonau Iechyd a Gofal, Safon 2.7; Y Cyngor | Mae cyrsiau amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed yn cael eu rhedeg yn ystod tymor yr hydref yn uned ôl-raddedig Ysbyty Treforys, a bydd staff nad ydynt wedi derbyn yr hyfforddiant hwn eto yn mynychu'r cyrsiau. | Simon Jenkins | 2-4 mis |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn sydd Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Deintyddol Cyffredinol, Datblygiad Proffesiynol Parhaus i Weithwyr Proffesiynol Deintyddol, t.15) | | | |
| 15 | Rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau i arddangos y gweithdrefnau pryderon (cwynion) fel nad oes yn rhaid i'r cleifion sy'n ymweld â'r practis holi ynghylch yr wybodaeth hon.<br><br>(Safonau Iechyd a Gofal, Safon 6.3; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 5.1.5)<br><br>(Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 15(2); Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pryderon, Cwynion a Threfniadau Unioni Cam) (Cymru) 2011, Rheoliad 5) | Bydd y gweithdrefnau cwyno ar gael ar y wefan newydd unwaith y bydd yn fyw yn y dyfodol agos, a hefyd rydw i wedi trefnu i reolwr y practis aildrefnu'r prif hysbysfwrdd er mwyn sicrhau bod lle ar gyfer deunydd sy'n ymwneud â chwynion. | Simon Jenkins | Cwblhawyd |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| | Dim byd wedi'i nodi | | | |

## Cynrychiolydd y practis:

## Enw (llythrennau bras): ........Simon Jenkins...................................................................

**Teitl:** ........Deintydd ..................................................................................

**Dyddiad:** ........6 Awst 2015...............................................................................